# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2015** |
| Amser: | **09.10 – 10.05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/fbf8a786-954d-40c1-80ee-d2bfcaf5fd8d?autostart=True

## Cofnodion Cryno:
MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins. Ni chafwyd dirprwy ar ei rhan.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-613 Dylai Aelodau'r Cynulliad wrthod yr argymhelliad i gynyddu eu cyflogau 18%

2.1 - 1 Datganodd yr Aelodau o'r Pwyllgor a oedd yn bresennol fuddiant perthnasol o ran pwnc y ddeiseb.

2.1 - 2 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am ei sylwadau ar y llythyr oddi wrth Gadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

### 2.2P-04-623 Wella'r Ddarpariaeth o Dai sy'n Addas i Bobl Anabl yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Geisio sylwadau pellach gan y deisebwyr ar y pwyntiau penodol a godwyd yn y paragraff olaf yn llythyr y Gweinidog; ac
- Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn a yw pob awdurdod lleol yn cynnwys Safon Ansawdd Tai Cymru yn ei Gynlluniau Datblygu Lleol.

## 3 Yr wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-04-598 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu eto at y deisebydd, yn gofyn am ei farn ar ohebiaeth flaenorol; a
- Chau'r ddeiseb os na cheir ymateb ymhen chwe wythnos.

### 3.2P-04-511 Cefnogi'r safonau cyfranogaeth plant a phobl ifanc

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ac at Blant yng Nghymru yn gofyn am eu barn ar y pwyntiau a godwyd gan y deisebwyr.

### 3.3P-04-535 Achubwch ein Gorsafoedd Tân

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu eto at y deisebydd, yn gofyn am ei farn ar ohebiaeth flaenorol; a
- Chau'r ddeiseb os na cheir ymateb ymhen chwe wythnos.

### 3.4P-04-563 Y ddarpariaeth o wasanaethau yng ngorsaf dân Pontypridd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu eto at y deisebydd, yn gofyn am ei farn ar ohebiaeth flaenorol; a

- Chau'r ddeiseb os na cheir ymateb ymhen chwe wythnos.

### 3.5P-04-596 Achub Gorsaf Dân y Porth – MAE'R EILIADAU'N CYFRIF!

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu eto at y deisebydd, yn gofyn am ei farn ar ohebiaeth flaenorol; a
- Chau'r ddeiseb os na cheir ymateb ymhen chwe wythnos.

### 3.6P-04-592 Pleidleisiau gan Ddinasyddion sy'n Rhwymol yn Ddemocrataidd ar Lefel Llywodraeth Leol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu eto at y deisebydd, yn gofyn am ei farn ar ohebiaeth flaenorol; a
- Chau'r ddeiseb os na cheir ymateb ymhen chwe wythnos.

### 3.7P-04-525 Ariannu Gwobrau CREST yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb ac, yn sgil y newyddion cadarnhaol bod y mater a godwyd yn y ddeiseb wedi cael ei ddatrys ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, gyda thrafodaethau yn parhau yn y blynyddoedd i ddod, cytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.8P-04-585 Newidiadau i gyffordd yr A494/A470 yn Nolgellau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn a yw'n fodlon ar y camau a gynigiwyd gan y Gweinidog; ac yna
- Gau'r ddeiseb oni bai ein bod yn clywed yn wahanol gan y deisebydd cyn pen chwe wythnos wedi ysgrifennu ati.

### 3.9P-04-594 Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri ynghylch y Gofeb i'r Tywysog Llywelyn

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebwyr a chytunwyd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gofyn am ei barn ynghylch a yw arwyddion ffordd ar yr A483 ar gyfer y gofeb yn ddichonadwy.

### 3.10 P-04-542 Cyfleoedd Ymarferol i Bobl Ifanc

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu eto at y deisebydd, yn gofyn am ei farn ar ohebiaeth flaenorol; a
- Chau'r ddeiseb os na cheir ymateb ymhen chwe wythnos.

### 3.11 P-04-551 Dysgu Cymorth Cyntaf Sylfaenol Mewn Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu eto at y deisebydd, yn gofyn am ei farn ar ohebiaeth flaenorol; a
- Chau'r ddeiseb os na cheir ymateb ymhen chwe wythnos.

### 3.12 P-04-569 Rhowch y Gorau i Gynnal y Profion Cenedlaethol ar gyfer Plant Ysgolion Cynradd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu eto at y deisebydd, yn gofyn am ei farn ar ohebiaeth flaenorol; a
- Chau'r ddeiseb os na cheir ymateb ymhen chwe wythnos.

### 3.13 P-04-576 Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i wahodd y Gweinidog a'r deisebydd i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor gyda golwg ar i'r Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad maes o law.

### 3.14 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn

Trafodwyd y ddeiseb ynghyd ag eitem agenda 3.15 (P-04-466)

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr am y sefyllfa yn lleol a chytunwyd i ofyn am farn y deisebydd ar y sefyllfa bresennol.

### 3.15 P-04-466 Argyfwng Meddygol – Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru

Trafodwyd y ddeiseb ynghyd ag eitem agenda 3.14 (P-04-479)

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr am y sefyllfa yn lleol a chytunwyd i ofyn am farn y deisebydd ar y sefyllfa bresennol.

### 3.16 P-04-534 Ymgyrch i ddiogelu YSBYTY ABERTEIFI

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu eto at y deisebydd, yn gofyn am ei farn ar ohebiaeth flaenorol; a
- Chau'r ddeiseb os na cheir ymateb ymhen chwe wythnos.

### 3.17 P-04-552 Diogelu Plant

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y deisebydd a chytunwyd i ofyn am farn y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cynnwys yr ohebiaeth.

### 3.18 P-04-514 Dylid adeiladu gorsaf bŵer sy'n defnyddio glo glân o Gymru a/neu gorsaf ynni adnewyddadwy yn hytrach na gorsaf niwclear arfaethedig Wylfa B ar Ynys Môn.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunwyd i ofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas ag Wylfa B a datblygu technoleg glo glân, gan gynnwys unrhyw ymwneud â Hitachi.

### 3.19 P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ystyried y ddeiseb eto, gan gynnwys a ddylid pwyso ar y Gweinidog i roi tystiolaeth lafar, unwaith y bydd ymatebion oddi wrth ohebwyr eraill wedi dod i law.

### 3.20 P-04-550 Pwerau Cynllunio

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ofyn am farn y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar sylwadau’r deisebwyr.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod er mwyn trafod y busnes canlynol:

Eitem 5 - Adroddiadau Drafft y Pwyllgor

## 5 Adroddiadau Drafft y Pwyllgor